# **Systemau meddal o optio allan o roi organau:** Adolygiad o dystiolaeth ryngwladol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil crynodeb | Ymchwil gymdeithasol | Rhif y ddogfen: 44/2012

**Cynhaliwyd yr adolygiad hwn â'r nod o ddiweddaru adolygiad systematig sy'n bodoli a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerefrog yn 2008 (Rithalia et al., 2008), oedd yn archwilio effaith deddfwriaeth 'optio allan' (neu 'gydsyniad tybiedig') ar gyfraddau rhoi organau.**

**Mae'r adroddiad cyfredol yn adolygu llenyddiaeth a gyhoeddwyd er 2008 sy'n trafod effaith deddfwriaeth 'optio allan' ar gyfraddau rhoi organau, yn ogystal ag arolygon o'r farn gyhoeddus ac astudiaethau arbrofol perthnasol i gydsyniad tybiedig i roi organau.**

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Adolygiad systematig**

Dynododd Rithalia et al. (2008) bedair astudiaeth gymharol â methodoleg gadarn a gyhoeddwyd cyn 2008:

1. Abadie a Gay, 2006: yn cynnwys data o 22 o wledydd dros y cyfnod 1993-2002 gan ganfod bod gan wledydd â chydsyniad tybiedig gyfraddau o roi organau oedd 25-30 y cant yn uwch na gwledydd â chydsyniad deallus.

2. Neto et al., 2007: dadansoddwyd data o 34 o wledydd dros gyfnod o bum mlynedd a chanfuwyd fod gwledydd â chydsyniad tybiedig yn cynhyrchu cyfraddau rhoi organau oedd 21-26 y cant yn uwch na gwledydd â deddfwriaeth cydsyniad deallus.

3. Healy et al., 2005: defnyddiwyd data o 17 o wledydd dros y cyfnod 1990-2002 a chanfuwyd fod y cyfraddau rhoi organau 2.7 rhoddwr yn uwch i bob miliwn yn y boblogaeth (PMP) mewn gwledydd â deddfwriaeth cydsyniad tybiedig na gwledydd â chydsyniad deallus.

4. Gimbel et al., 2003: dadansoddwyd data o 28 o wledydd rhwng 1995-1999 a chanfuwyd fod gwledydd oedd yn ymarfer cydsyniad tybiedig ar gyfartaledd â 6.14 rhoddwr yn ychwanegol PMP na gwledydd oedd yn ymarfer cydsyniad deallus.

Dynododd yr adolygiad hwn ddwy astudiaeth arall â methodoleg gadarn a gyhoeddwyd er mis Ionawr 2008:

1. Bilgel, 2012: cynhwyswyd data o 24 o wledydd dros y cyfnod 1993-2006 gan amcangyfrif fod gan wledydd â chydsyniad tybiedig gyfraddau rhoi organau sydd ar gyfartaledd 13-18 y cant yn uwch na gwledydd â deddfwriaeth cydsyniad deallus.

2. Mossialos et al., 2012: dadansodwyd data ar lefel unigol gan gyfranogwyr mewn 15 o wledydd Ewrop a chanfuwyd fod unigolion sy'n byw mewn gwledydd â chydsyniad tybiedig rhwng 17-29 y cant yn fwy tebygol o adrodd parodrwydd i roi eu horganau eu hunain a 27-56 y cant yn fwy tebygol o adrodd y byddent yn cydsynio i roi organau eu perthnasau, nag ymatebwyr mewn gwledydd â chaniatâd penodol.

Er bod chwe astudiaeth â methodoleg gadarn wedi canfod fod systemau optio allan ar gyfer rhoi organau yn gysylltiedig â chyfraddau cynyddol o roi organau ac adroddiadau am barodrwydd cynyddol i roi, ni ellir cymryd o hyn fod y cysylltiad yn golygu bod cydsyniad tybiedig *yn achosi* cyfraddau rhoi organau uwch.

**Arolygon o'r farn gyhoeddus**

Mae arolygon diweddar yng Nghymru'n arwyddo bod cyfran uwch o ymatebwyr yn cefnogi'r symudiad at system o optio allan nag sydd yn ei erbyn.

Canfu arolwg o oedolion cynrychioliadol yn byw yng Nghymru yn 2012, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, fod 49 y cant o ymatebwyr o blaid newid i system o optio allan, gyda 22 y cant yn erbyn. Dywedodd 21 y cant arall y byddai 'angen rhagor o wybodaeth i allu penderfynu.'

Canfu arolwg o oedolion o Gymru a gomisiynwyd gan BBC Cymru yn 2012 fod 63 y cant o'r ymatebwyr o blaid mabwysiadu system o gydsyniad tybiedig o'i gymharu â 32 y cant yn erbyn.

**Llenyddiaeth arbrofol**

Ceir corff bychan o lenyddiaeth arbrofol sy'n arwyddo pan geir sefyllfa ddiofyn gyda phawb yn rhoddwr organau (fel sy'n digwydd mewn system optio allan) ceir cyfraddau uwch o gydsyniad effeithiol. Fodd bynnag mae'r math hwn o ymchwil yn gyfyngedig i'r graddau y gellir cymhwyso ei ganfyddiadau i sefyllfaoedd bywyd go iawn.

**Bylchau tystiolaeth**

Mae diffyg ymchwil wedi bod i ganfod a yw system optio allan yn cael effaith wahanol ar is-grwpiau o fewn poblogaeth e.e. gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol ac ethnig.

Ceir ymchwil cyfyngedig iawn i'r ffordd orau i weithredu system optio allan i gyflawni cyfraddau rhoi organau optimal e.e. mathau o gofrestr a'r graddau y caiff y teulu eu cynnwys yn y broses roddi.

**Casgliadau**

Cyflwynir pedwar prif edefyn o dystiolaeth yn y papur hwn:

1. Mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu cysylltiad rhwng deddfwriaeth cydsyniad tybiedig a chyfraddau uwch o roi organau;

2. Mae arolygon diweddar yn arwyddo bod cefnogaeth sylweddol i gyflwyno system optio allan o roi organau yng Nghymru;

3. Mae llenyddiaeth arbrofol yn cynnig tystiolaeth ar gyfer trefn lle gallai cydsyniad tybiedig gynyddu cyfradd rhoi organau, oherwydd dylanwad y sefyllfa ddiofyn.

Mae cyfuniad o'r tri edefyn tystiolaeth yn cynnig sail argyhoeddiadol ar gyfer cyflwyno system optio allan yng Nghymru. Fodd bynnag ni ellir gwarantu y byddai'r newid deddfwriaethol hwn

yn arwain at gynyddu cyfraddau
rhoi organau.

**Melissa Palmer**
London School of Hygiene and
Tropical Medicine, ar leoliad gwaith
gyda Llywodraeth Cymru a noddir
gan ESRC

ISBN 978 0 7504 8305 6